Llywodraeth Cymru | Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y FfDC


De-ddwyrain Cymru – Adroddiad Cryno Gweithdy Rhanbarthol

Caerdydd, 7 Rhagfyr 2018

264350-00 | Cyhoeddi | 29 Ionawr 2019








Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

Cynnwys

Tudalen

1 Cyflwyniad 1
1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth 1
1.2 Cynnwys Rhanddeiliaid 2
1.3 Diben 2
1.4 Strwythur 3

2 Trefniadau a Mynychwyr 4
2.1 Manylion 4
2.2 Y Gymraeg 4
2.3 Agenda 4
2.4 Cyflwyniad 5
2.5 Gweithgareddau 5
2.6 Cyfranogwyr 6

3 Canlyniadau Gweithgaredd 1 - ymarferiad 'dotiau gludiog' 8
3.1 Diffinio meysydd polisi ar raddfeydd gofodol gwahanol 8
3.2 Blaenoriaethu materion trawsffiniol 10
3.3 Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr 11
3.4 Diffinio canolfannau gweithgarwch manwerthu a masnachol mawr 12
3.5 Crynodeb 13

4 Canlyniadau Gweithgaredd 2 – SWOT 14
4.1 Cymdeithasol a Diwylliannol 14
4.2 Economaidd 16
4.3 Amgylcheddol 19
4.4 Crynodeb 22

Ffigurau

Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

Atodiadau

Atodiad A

Rhanbarth De-ddwyrain Cymru - Cyflwyniad Gweithdy

Atodiad B

Allbynnau'r Gweithgaredd Dotiau Gludiog

Atodiad C

Ffotograffau Gweithgaredd SWOT

Atodiad CH


Cofrestr Digwyddiadau De-ddwyrain Cymru

1 Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn haf 2018, mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft a bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel yr amlinellwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru fel y dangosir yn Ffigur 1.



Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

Mae hyn yn adlewyrchu'r rhanbarthau a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi. Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi'u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni'n rhanbarthol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn hwyluso'r ymagwedd hon, ac yn darparu

fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn rhanbarthol.

O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisïau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru (ACLlau).

I gynorthwyo â datblygu'r FfDC a darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu'r polisi (yn genedlaethol a rhanbarthol), penodwyd Arup yn ddiweddar i ymgymryd â gwaith ymchwil yn y maes hwn.

Bydd yr ymchwil yn sefydlu sylfaen dystiolaeth o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth, ac yn archwilio rôl y FfDC wrth ymateb i'r rhain, gan awgrymu'r ymyrraeth polisi fwyaf priodol (e.e. cynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol, lleol neu gymunedol). Bydd yr ymchwil yn dod ag ystod o ddata a gwybodaeth ynghyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth, gan gyflwyno hyn ar ffurf tablau ac yn ofodol. Yn bwysig, yn ogystal â chefnogi datblygu'r FfDC Drafft, bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygu CDSau a CDLlau.

1.2 Cynnwys Rhanddeiliaid

Fel rhan o'r astudiaeth, mae Arup wedi arwain dwy ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid:

1. Fel rhan o'r gwaith casglu data / gwybodaeth, cysylltwyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i ofyn am wybodaeth feintiol sydd ganddynt er mwyn llywio'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, data ar gyflogaeth leol, tai a data amgylcheddol lle na fu modd casglu'r data hwn o ffynonellau cyhoeddedig; a

2. Fel rhan o'r broses SWOT ac wrth fynd ati i nodi blaenoriaethau rhanbarthol, gwahoddwyd 148 o sefydliadau i fynychu cyfres o ddigwyddiadau gweithdy, yn cynrychioli'r rheiny â diddordeb yn yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd yng Nghymru. Canolbwyntiodd y gweithdai ar archwilio ystod o feysydd polisi a materion, yn ogystal â thrafodaethau ynglŷn â'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth. Roedd y ffocws ar ofyn i grwpiau rhanddeiliaid beth fyddai'r FfDC yn gallu ei wneud i hyrwyddo'i gyfraniad i'r eithaf at lwyddiannau rhanbarthau Cymru yn y dyfodol.

1.3 Diben

Bydd y data / gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Astudiaeth. Mae'r Adroddiad Gweithdy hwn yn rhoi canlyniadau digwyddiad Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru ac yn darparu adroddiad ffeithiol am y digwyddiad, ei drafodaethau a'i ganfyddiadau cychwynnol.

Mae Adroddiadau Gweithdy ar wahân wedi'u paratoi ar gyfer digwyddiadau rhanbarthol Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru.

Darperir dadansoddiad SWOT yn Adroddiad llawn yr Astudiaeth.

1.4 Strwythur

Cyflwynir yr Adroddiad Gweithdy hwn yn yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 2 yn disgrifio manylion y gweithdai a'r rheiny sy'n gysylltiedig;

  Mae Adran 3 yn darparu canlyniadau'r gweithgaredd rhanddeiliaid cyntaf, gan helpu i ystyried meysydd polisi gwahanol, materion trawsffiniol, sut dylid eu diffinio ac ar ba raddfa; ac
- Mae Adran 4 yn darparu canlyniadau'r ail weithgaredd rhanddeiliaid, yn cynnwys trafodaethau â ffocws am gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y rhanbarth.

2 Trefniadau a Mynychwyr

2.1 Manylion

Archwiliwyd amryw leoliadau, mannau cyfarfod, dyddiadau ac amserau, a'r rheiny y penderfynwyd arnynt sy'n adlewyrchu cyfyngiadau a gofynion yr astudiaeth orau, gan ystyried capasiti, hygyrchedd a'r rhaglen. Trefnwyd digwyddiad De-ddwyrain Cymru fel a ganlyn:

Lleoliad Caerdydd

Man Cyfarfod Arup

Dyddiad 7 Rhagfyr 2018

Amser 10.00 – 12.30

2.2 Y Gymraeg

Darparwyd holl ddeunyddiau'r digwyddiad yn Gymraeg a Saesneg, a gwahoddwyd mynychwyr i gyfranogi yn eu dewis iaith.

I hwyluso hyn, cefnogwyd Arup gan Trosol a ddarparodd wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig.

Yn ystod y gweithgareddau grŵp yn y gweithdai, roedd unrhyw un a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny diolch i wasanaeth cyfieithu ar y pryd, a ddarparwyd gan Trosol hefyd.

2.3 Agenda

Roedd strwythur y gweithdy yn canolbwyntio ar yr eitemau canlynol:

Eitem	Disgrifiad
Cyflwyniadau	Cyflwynwyd tîm y prosiect a gofynnwyd i randdeiliaid nodi eu henw a'u sefydliad yn eu tro, er mwyn helpu'r cyfranogwyr werthfawrogi amrywiaeth ac ystod y diddordebau cysylltiedig. Amlinellwyd manylion y trefniadau ymarferol hefyd.
Yr Astudiaeth	Pennodd Llywodraeth Cymru y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth, gan ddarparu'r cefndir i'r FfDC, yr ymgynghoriad arno, cwmpas ymchwil Arup, ymagwedd at Ranbarthau'r FfDC a rhaglenni.
Data a thueddiadau	Eglurodd Arup y mathau o wybodaeth a nodweddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a'r mapiau gofodol a geisiwyd, ac sy'n llywio'r astudiaeth. Mae tueddiadau defnyddiol i ddangos cymariaethau ar hyd rhanbarthau Cymru yn gosod cyd-destun ardal yr astudiaeth cyn cynnal y gweithgareddau rhanddeiliaid.
Diffiniadau data a materion	Gweithgaredd 1 – Ymarferiad 'dotiau gludiog' – fe wnaeth hwn helpu rhanddeiliaid i rannu'u barnau ynglŷn â graddfeydd perthnasol a diffiniadau meysydd polisi, fel ystyriaethau pwysig ar gyfer datblygu'r FfDC.

Eitem	Disgrifiad
SWOT	Gweithgaredd 2 – Ymarferiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau – fe wnaeth hwn hwyluso trafodaethau am faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r rhanbarth.
Camau nesaf	Fe wnaeth Arup a Llywodraeth Cymru gloi'r digwyddiad trwy ddiolch i gyfranogwyr am gymryd rhan, gan esbonio sut gallent barhau'n gysylltiedig a beth yw'r camau nesaf ar gyfer yr astudiaeth a'r FfDC. Roedd hyn yn cynnwys y byddai Adroddiad Gweithdy ffeithiol yn cael ei rannu, cyfarfodydd rhanddeiliaid â ffocws yn y dyfodol am brosiectau a chynlluniau, byddai data'n cael ei gasglu i'w gyhoeddi drwy'r Porth Lle, ac Adroddiad Astudiaeth ac amserlen ar gyfer cyhoeddi'r FfDC.

2.4 Cyflwyniad

Roedd cyflwyniad PowerPoint yn cyd-fynd â'r eitemau agenda uchod, yn darparu sbardunau a thestun a delweddau defnyddiol. Cynhwysir copi yn Atodiad A.

2.5 Gweithgareddau

Gofynnwyd i randdeiliaid gyfranogi mewn dau weithgaredd fel rhan o'r gweithdy, ac fe'u disgrifir yn eu tro isod.

2.5.1 Gweithgaredd 1 – 'Ymarferiad dotiau gludiog'

Er mwyn pennu'r meysydd polisi a'r materion sydd o'r diddordeb mwyaf yn y rhanbarth, a ph'un ai'r FfDC yw'r mecanwaith priodol ai peidio i helpu i fynd i'r afael â'r rhain, roedd sesiwn ryngweithiol yn cynnwys gofyn i randdeiliaid helpu:

- Diffinio graddfa briodol ymyrraeth polisi (e.e. Cenedlaethol, Rhanbarthol, Lleol neu Gymunedol) ar draws ystod o themâu;
- Blaenoriaethu materion trawsffiniol;
- Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr; a
- Diffinio canolfannau gweithgarwch manwerthu a masnachol mawr.

Yn ystod y gweithgareddau hyn, darparwyd nifer union benodol o ddotiau gludiog i gyfranogwyr i'w gosod ar gyfres o daflenni gweithgareddau, er mwyn cofnodi'u dewisiadau a'u dymuniadau yn briodol.

Darperir copi o'r gweithgareddau wedi'u cwblhau yn Atodiad B.

Rhoddir eglurhad pellach ochr yn ochr â chrynodeb o'r canlyniadau ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

2.5.2 Gweithgaredd 2 – SWOT

Ffurfiwyd tri grŵp gan y mynychwyr, ac yn eu tro aethant ati i drafod y rhanbarth mewn perthynas â phob un o'r themâu bras canlynol, sy'n adlewyrchu pedair colofn datblygu cynaliadwy yng Nghymru:

1. Cymdeithasol a Diwylliannol;
2. Economaidd; ac
3. Amgylcheddol.

Cafodd y sesiynau eu hwyluso a'u nodi'n ysgrifenedig er mwyn helpu annog trafodaeth a chofnodi'r materion wrth iddynt gael eu codi.

Treuliodd bob grŵp rhwng 20 a 30 munud yn trafod pob un o'r themâu hyn.

Darperir ffotograffau o'r ymarferiad a chofnodion o'r allbynnau yn Atodiad C, a rhoddir crynodeb o'r trafodaethau ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

2.6 Cyfranogwyr

2.6.1 Mynychwyr

Fe wnaeth 27 o gyfranogwyr fynychu'r gweithdy, yn cynrychioli'r sefydliadau a ganlyn:

- Age Cymru
- Associated British Ports
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Linc Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Tai Sir Fynwy
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Renewables UK Cymru
- Cyngor Abertawe
- Sustrans
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Trafnidiaeth Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Tai Wales & West
- Dŵr Cymru
- Western Power Distribution
- Yr Ymddiriedolaeth Natur

Cynhwysir copi o'r gofrestr digwyddiadau yn Atodiad CH.

Roedd y rhai a gafodd wahoddiad ond nad oeddent yn gallu mynychu yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- BT Cymru
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr
- BGC Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Grid Cenedlaethol
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
- Prifysgol De Cymru
- Croeso Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3 Canlyniadau Gweithgaredd 1 – ymarferiad 'dotiau gludiog'

Gellir gweld holl allbynnau'r gweithgaredd hwn yn Atodiad B, a darperir crynodeb isod.

3.1 Diffinio meysydd polisi ar raddfeydd gofodol gwahanol

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn colofn neu ar linell rannu i gynrychioli'i dewis orau o ran i ba (lefel) graddfeydd gofodol y dylai meysydd polisi gwahanol gael eu diffinio.

Mae'r canlyniadau, fel y'u dangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos amrywio ar draws y graddfeydd gofodol gwahanol ond gyda chlystyrau, gan helpu dangos bod rhywfaint o gonsensws mewn mannau.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae marciwr gwyrdd wedi'i droslunio gan Arup ar gopi gwag o'r daflen gweithgaredd i gynrychioli a dangos y clystyrau yn y modd gorau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ar ba raddfa yr oedd y mynychwyr yn ystyried y dylai pob maes polisi gael eu diffinio'n gyffredinol. Dangosir hyn isod:

Maes polisi	Cenedlaethol	Rhanbarthol	Awdurdod Lleol	Cymunedol	Dim (mater heb fod yn ymwneud â chynllunio neu ymdrinnir ag ef orau yn rhywle arall)
Hierarchaeth aneddiadau					
Twf poblogaeth (rhagolygon)					
Materion strategol iechyd a lles					
Materion strategol y Gymraeg					
Angen am Dai Fforddiadwy					
Dyraniadau tai (unedau)					
Adnoddau naturiol / asedau					

Maes polisi	Cenedlaethol	Rhanbarthol	Awdurdod Lleol	Cymunedol	Dim (mater heb fod yn ymwneud â chynllunio neu ymdrinnir ag ef orau yn rhywle arall)
amgylcheddol strategol					
Materion strategol cynllunio morol					
Sectorau economaidd allweddol					
Safleoedd cyflogaeth strategol					
Amcanion neu dargedau trafnidiaeth strategol					
Amcanion neu dargedau teithio llesol strategol					
Egwyddorion strategol creu lleoedd					
Cyngor/gofynion dylunio strategol					
Asedau strategol treftadaeth adeiledig					
Materion strategol yn ymwneud â llifogydd					
Materion strategol yn ymwneud â mwynau					
Materion gwastraff strategol					
Prosiect ynni strategol					
Materion strategol cysylltedd digidol					

Yn gryno, teimlai'r mwyafrif o'r cyfranogwyr y dylid ymdrin â'r meysydd polisi a nodwyd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Mae'r canlyniadau yn dynodi bod consensws cyffredinol yn Ne-ddwyrain Cymru fod meysydd polisi a ddylai gael eu hystyried ar **lefel genedlaethol** yn cynnwys:

a) Materion strategol cynllunio morol
b) Materion strategol cysylltedd digidol
c) Prosiectau ynni strategol

Ar y lefel **genedlaethol i ranbarthol**:

a) Twf poblogaeth (rhagolygon)
b) Materion strategol iechyd a lles
c) Materion strategol y Gymraeg
ch) Adnoddau naturiol / asedau amgylcheddol strategol
d) Amcanion neu dargedau trafnidiaeth strategol
dd) Materion strategol yn ymwneud â llifogydd
e) Materion strategol yn ymwneud â mwynau
f) Cyngor/gofynion dylunio strategol

Ar y lefel **ranbarthol**:

a) Sectorau economaidd allweddol
b) Safleoedd cyflogaeth strategol
c) Asedau strategol treftadaeth adeiledig
ch) Safleoedd gwastraff strategol

Ac ar y lefel **lleol i ranbarthol**:

a) Hierarchaeth aneddiadau
b) Angen am dai fforddiadwy
c) Dyraniadau tai

3.2 Blaenoriaethu materion trawsffiniol

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn rhes er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gwahanol sydd bwysicaf fel mater trawsffiniol ar gyfer eu rhanbarth. Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis y tri opsiwn yr oeddent yn eu ffafrio o saith o opsiynau.

Mae'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos y dewiswyd pob un o'r opsiynau gwahanol o leiaf unwaith, ond gyda chonsensws amlwg fod rhai mathau o faterion trawsffiniol yn cael eu hystyried yn bwysicach na rhai eraill ar gyfer y cyfranogwyr.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch pa faterion polisi trawsffiniol sydd bwysicaf yn y rhanbarth. Dangosir hyn isod:

Cysylltedd	Nifer o weithiau y dewiswyd
Seilwaith ynni	**17**
Cyflogaeth / man gweithio	**13**
Tai a chymunedau	**6**
Llafur / cyflogeion / sgiliau	**15**
Manwerthu / masnachol a hamdden	**4**
Gwasanaethau a chyfleusterau	**2**
Trafnidiaeth a theithio	**26**

3.3 Diffinio safleoedd cyflogaeth mawr

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog ar ran o daflen waith er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa faint/graddfa yr ystyrir bod safleoedd cyflogaeth yn ‘fawr’ yn eu rhanbarth.

Mae’r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod yr holl gyfranogwyr o’r farn fod safle cyflogaeth ‘mawr’ yn Ne-ddwyrain Cymru yn fwy nag 20 hectar.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallai’r FfDC helpu orau i lunio safleoedd cyflogaeth mawr (neu strategol) ar draws y rhanbarthau. Dangosir hyn isod:

Graddfa Safle Cyflogaeth	Nifer o weithiau y dewiswyd
50+ hectar	**15**
Rhwng 20 a 50 hectar	**2**
20 hectar	**8**
Rhwng 10 ac 20 hectar	**2**
10 hectar	**0**
Llai na 10 hectar	**0**

Rydyn yn cydnabod mai dim ond un ffordd o ddiffinio safleoedd mawr yw graddfa ac y gallai ffactorau eraill gael eu hystyried. Trafodir y diffiniad hwn yn ehangach yn Adroddiad yr Astudiaeth.

3.4 Diffinio canolfannau manwerthu a masnachol mawr

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o dan ran o daflen waith er mwyn cynrychioli eu dewis orau o ran pa raddfa yr ystyrir bod canolfannau manwerthu a masnachol yn 'fawr' yn eu rhanbarth. Ategwyd hyn gan dri map:

1. Map A: yn dangos canolfannau lle cyflogir 3,000 neu fwy yn y sector manwerthu / masnachol;
2. Map B: 2,000 neu fwy; a
3. Map C: 1,000 neu fwy.

Mae'r mapiau a'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod y cyfranogwyr wedi dewis pob un o'r opsiynau, ond gydag amrywiadau yn canolbwyntio ar Fapiau A a B.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau fel y'u detholwyd. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallai'r FfDC helpu orau i lunio canolfannau manwerthu a masnachol mawr (neu strategol) ar draws y rhanbarthau.

Dylid nodi hefyd na wnaeth 6 o gyfranogwyr ddewis unrhyw rai o'r opsiynau, ac yn lle hynny dewisont osod eu dot gludiog y tu allan i'r ardal. Dangosir yr ymatebion hyn hefyd yn y tabl isod yn erbyn 'dim un o'r uchod'.

	Nifer o weithiau y dewiswyd
Dros 3,000 o Gyflogeion	**13**
Dros 2,000 o Gyflogeion	**9**
Dros 1,000 o Gyflogeion	**1**
Dim un o'r uchod	**6**

3.5 Crynodeb

Mae'r canlyniadau yn dangos consensws cyffredinol yn Ne-ddwyrain Cymru o ran y canlynol:

1. Y dylai mwyafrif y meysydd polisi strategol gael eu diffinio ar y lefel genedlaethol i ranbarthol, ar wahân i hierarchaeth aneddiadau, dyraniadau tai ac angen am dai fforddiadwy, a ddylai gael eu diffinio ar lefel y lefel leol i ranbarthol.
2. Mai'r mater trawsffiniol allweddol yw trafnidiaeth a theithio, gyda seilwaith ynni a llafur/cyflogeion/sgiliau yn cael eu hystyried yn faterion o bwys mawr hefyd.
3. Bod safle cyflogaeth mawr yn Ne-ddwyrain Cymru yn fwy nag 20 hectar, gyda mwyafrif y cyfranogwyr yn dweud y dylent fod dros 50+ hectar.
4. Canolfan gweithgarwch manwerthu a masnachol fawr yn Ne-ddwyrain Cymru yw un sy'n darparu mwy na 3,000 o swyddi.

4 Canlyniadau Gweithgaredd 2 – SWOT

Cafodd cyfranogwyr eu hannog i ystyried Cryfderau/Gwendidau fel rhai ‘Cyfredol’ a Chyfleoedd/Bygythiadau fel rhai yn y ‘Dyfodol’.

Hwyluswyd trafodaethau SWOT a gwnaethpwyd nodiadau er mwyn helpu cofnodi pob un o’r pwyntiau a godwyd ac a rannwyd. Cyflwynir y rhain yn yr adrannau isod.

Darperir y dadansoddiad o’r SWOT yn Adroddiad yr Astudiaeth ar wahân.

Darperir ffotograffau o’r allbynnau a’r trafodaethau yn Atodiad C.

Mae Adran 4.4 yn rhoi crynodeb a throsolwg rhanbarthol.

4.1 Cymdeithasol a Diwylliannol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Ysbryd cymunedol/hunaniaeth • Amrywiaeth ethnig mewn ardaloedd trefol • Treftadaeth ddiwylliannol • Yr amgylchedd • Cynllunio trafnidiaeth • Hunaniaeth ddiwylliannol yn genedlaethol a rhanbarthol	• Problemau trafnidiaeth yn effeithio ar aelodau tlotaf y gymdeithas • Darparu tai • Gallu i allu cyflawni o ran rhwymedigaethau tai • Ardaloedd o amddifadedd/anghydraddoldeb • Ynysu gwledig a chyflwyno gwasanaethau • Ymagwedd sectoraidd at gynllunio • Datblygu yn cael ei ysgogi gan rymoedd y farchnad – yn enwedig ar gyfer prif wasanaethau. • Diffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng y meysydd tai ac iechyd • Dosbarthiad anghyson o ran cysylltedd digidol • Anhawster yn newid ymddygiadau mewn perthynas â theithio cynaliadwy • Cyfleusterau addysg: diboblogi mewn rhai ardaloedd yn sgil diffyg darpariaeth addysg dda • Y Gymraeg – weithiau yn ffynhonnell tensiynau rhanbarthol a lleol • Cymudo allan yn effeithio ar gymunedau lleol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
	• Diffyg cynllunio cydgysylltiedig ar gyfer trafnidiaeth • Diffyg arloesi ac amrywio wrth ddylunio datblygu, yn enwedig tai • Datblygiadau tai mawr yn cael eu hadeiladu heb drafnidiaeth gynaliadwy • Diffyg ymagwedd holistaidd at greu lleoedd • Ansicrwydd ynglŷn â dyfodol cyflogaeth • Lefelau diweithdra uwch

CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Gweithio gartref • Polisi cryf ar lefel genedlaethol mewn perthynas â chreu lleoedd.	• Ansicrwydd ynglŷn â dyfodol gwaith • Lefelau diweithdra uwch • Newid hinsawdd • Llifogydd • Gofynion sgiliau yn y dyfodol ddim yn cael eu bodloni • Cartrefu cymunedau sy'n heneiddio • Gofal cymdeithasol • Modelau ariannu Llywodraeth Cymru

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei rhoi ar waith cyn datblygu
- Arbedion maint o ran darparu tai fforddiadwy
- Ymglymiad gweithredol cymunedau yn y broses gynllunio
- Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach mewn penderfyniadau cynllunio
- Mwy o ymwybyddiaeth o gynllunio ar gyfer yr henoed, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau a gorddibynnu ar siwrneiau car preifat.

Rhwystrau:

- Y terfynau cynhenid ar y system gynllunio o ran gallu datrys pob mater
- Angen mwy o eglurder ar sut mae datblygiad yn cael ei gyflawni a sut bydd rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu bodloni

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Cynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, yn enwedig tai
- Mwy o gymorth ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol
- Denu busnes i ardaloedd gwledig
- Dull newydd traws-sector o gynllunio a datblygu
- Ymgysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynllunio ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy
- Hunaniaeth ac ymdeimlad cymunedol wedi'u gwreiddio
- Cysondeb rhwng polisi cynllunio, gwneud penderfyniadau a gweledigaeth y Fargen Ddinesig
- Gweithio cydgysylltiedig rhwng Awdurdodau Cynllunio a Byrddau Iechyd lleol
- Y FfDC yn llywio twf yn y rhanbarth
- Dylai'r FfDC fynd i'r afael â'r agweddau diwylliannol ar greu lleoedd
- Symud y tu hwnt i'r sefyllfa bresennol a chael y dewrder i wneud pethau'n wahanol
- Yr angen am gyllid priodol ar gyfer y FfDC
- Mynd i'r afael ag amddifadedd tai ym Mlaenau'r Cymoedd
- Trosolwg strategol o safleoedd tramwy Teithwyr
- Ymagwedd fwy holistaidd at ddatblygu
- Targedau a niferoedd ddim yn effeithio ar ansawdd datblygu.

4.2 Economaidd

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Yr amgylchedd • Nifer y safleoedd hyfyw ar hyd coridor yr M4 • Amrywiaeth economaidd • Tir diwydiannol strategol • Porthladdoedd - Caerdydd a Chasnewydd • Rhwydwaith trafnidiaeth • Cynlluniau Metro De Cymru • Manwerthu	• Safleoedd diwydiannol mawr cyfyngedig – mae'r rhan fwyaf yn ddarniog neu ar raddfa fach • Agosrwydd safleoedd diwydiannol i seilwaith porthladd presennol a chysylltedd arwyneb • Dosbarthiad a chapasiti grid • Cost ac amser cludo nwyddau • Buddsoddiad ynni yn cael ei ysgogi gan y farchnad yn unig

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Biowyddorau • Gwasanaethau proffesiynol • Awyrofod • Maes Awyr Caerdydd • Cysylltiadau Trawsffiniol – tai a chyflogaeth • Cyfleusterau addysg – Prifysgolion a Cholegau • Lled-ddargludyddion • Chwaraeon ac Adloniant • Amaethyddiaeth	• Draen dawn a phrinder sgiliau technegol mewn diwydiannau allweddol • Plwyfoldeb mewn cymunedau • Tagfeydd ar yr M4 - yng Nghaerdydd a Bryste • Cysylltedd Trenau • Cysylltedd digidol ar drenau e.e. wifi • Twnnel Rheilffordd Hafren – maint cyfyngedig a phroblemau peirianyddol • Daliad tir gan ACLlau • Cydadwaith rhwng gwleidyddiaeth ac adfywio, yn enwedig yn y Cymoedd • Manwerthu ar-lein • Diffyg buddsoddi mewn ardaloedd o amddifadedd • Ddim yn creu cymunedau cynaliadwy • Cyflogaeth cyflog isel

CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Denu pobl ifanc i'r ardal • Gwerthoedd tir is nag ar draws y ffin (Gorllewin Lloegr) • Dileu'r tollau ar Bont Hafren • Brexit – cyfle i fynd i'r afael â phethau'n wahanol • Targedu buddsoddiad i ardaloedd o amddifadedd • Bargen Ddinesig • Ehangu Porthladdoedd • Datblygiad byw/gwaith ar raddfa lai • Mwy o ddatblygu preswyl – gallai fod yn gyfle i ail-greu canol trefi • Clystyrau digidol • Ynni adnewyddadwy • Ail groesfan yr M4	• Metro • Tagfeydd ar yr M4 os na chaiff y ffordd liniaru ei hadeiladu • Effaith datgarboneiddio ar y seilwaith grid • Parhau i ddefnyddio ceir • Dibyniaeth ar gyflogaeth y sector cyhoeddus • Rhaglen fuddsoddi hirdymor Ynni/Ofgem • Agenda sgiliau • Perygl llifogydd • Brexit • Manwerthu – hyfywedd a bywiogrwydd y Stryd Fawr • Ansawdd Aer • Cynnal diwydiant – dibyniaeth ar gymorthdaliadau cyhoeddus

CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Yr economi sylfaenol – creu cyfleoedd i annog gwariant lleol • Poblogaeth sy'n heneiddio – poblogaeth oedran gweithio fwy • Twristiaeth – gallu gwneud mwy i gipio graddfa lawn y cyfle • Dosbarthu a phontio gwasanaethau • Technolegau'r dyfodol a chyfleoedd cyflogaeth newydd • Defnyddio tir cyhoeddus i hwyluso tai fforddiadwy • Cymorth/ffocws Llywodraeth Genedlaethol a Lleol ar brentisiaethau yn enwedig mewn technoleg ddigidol • Galw am ofod swyddfa BBaCh • Busnesau newydd ac entrepreneuriaeth • Metro	• Poblogaeth oed gweithio yn lleihau • Cadw myfyrwyr yn yr ardal leol ar ôl graddio • Cymhareb dibyniaeth

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Ardal Fenter Canol Caerdydd
- Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer Porthladdoedd
- Cyswllt rhwng y System Gynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Bargen Ddinesig a mynediad at gyllid
- Defnydd pellach o orchmynion prynu gorfodol – cydosod tir
- Ymyrraeth yn y farchnad
- Cynllunio mwy ystwyth/darpariaeth hyblyg
- Pwyso a mesur ar ôl Brexit
- Cynllunio cydgysylltiedig rhwng CDLlau, CDSau a'r FfDC
- Cyllid i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau)
- Adolygiad o ddaliadau tir y Llywodraeth
- Polisïau i ddarparu ar gyfer BBaChau
- Troi'r ffocws i ganiatáu ar gyfer dulliau mwy o'r gwaelod i fyny o greu cymunedau cynaliadwy

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - ymrwymiad cymdeithasol a diwylliannol

Rhwystrau:

- Mynediad gwael i Faes Awyr Caerdydd
- Nid yw TAN 8 (ynni adnewyddadwy) yn cyflawni'r hyn yr aeth ati i'w gyflawni
- Dim trafodaeth economaidd ar lefel genedlaethol
- Incymau cyfyngedig

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Yr angen i ehangu capasiti'r grid
- Ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion sgiliau'r dyfodol a chyfleoedd
- Creu gwell cysylltedd – yn ffisegol ac yn ddigidol
- Cefnogi cysylltedd rhyngwladol – e.e. ehangu Maes Awyr Caerdydd
- Dulliau newydd o fynd i'r afael â dyfodol y Cymoedd
- Cefnogi cynllunio ar lefel ranbarthol
- Cynllunio ar gyfer twf a dirywiad yng ngolau gwahaniaethau rhanbarthol
- Ystyried diogelwch yn y system gynllunio – yn enwedig ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth
- Ystyried yr angen am gyllid ac ymagweddau at gyllid e.e. arian sefydlu yn erbyn benthyciad
- Cymorth ar gyfer datblygwyr haen ganol

4.3 Amgylcheddol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
• Amrywiaeth adnoddau • Buddion iechyd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd • Nifer safleoedd dynodedig yn y rhanbarth • Polisi mwynau – ffocws i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil • Adnoddau amgylcheddol i ddenu pobl i'r rhanbarth • Agosrwydd adnoddau naturiol i'r boblogaeth • Amrywiaeth adnoddau	• Cyfyngiad ar storfeydd ystlumod • Ansawdd Aer • Datgysylltiad rhwng ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu a ble y delir ag ef • Cynllunio ar gyfer datblygu heb fod ar gyfer yr amgylchedd/bywyd yn gyffredinol • Cynlluniau'n canolbwyntio ar adeiladau/seilwaith newydd ond nid yn canolbwyntio ar wella rhai presennol • Darparu atebion yn seiliedig ar natur i broblemau

• Canolfannau galw yn agosach at y cynhyrchu	• Diffyg seilwaith i gerbydau trydan • Effeithlonrwydd ynni'r stoc tai • Mwynau – cloddio am lo yn erbyn polisi newydd • Polisi gwastraff yn canolbwyntio ar lefel ACLl ar hyn o bryd, ond dylai gael ei gynllunio'n fwy strategol • Storio ynni • Cyswllt rhwng yr amgylchedd adeiledig a chynhwysiant cymdeithasol • Effaith yr M4 ar Ansawdd Aer
CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
• Manteision canoli e.e. agosrwydd at seilwaith porthladd, dwysedd carbon • Atebion yn seiliedig ar natur i faterion • Cynlluniau strategol ar gyfer rheoli dŵr/amddiffynfeydd llifogydd • Trafnidiaeth gynaliadwy – teithio lleol • Polisi seilwaith gwyrdd wedi'i gysylltu â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • Technoleg • Gwella trwy Ddatblygu • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • Edrych y tu hwnt i'r presennol ar ffurf seilwaith gwyrdd • Creu gwydnwch drwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd • SDCasu • Tir halogedig • Gwasanaethau ecosystem • Carbon a datblygu	• Cynhyrchu gwastraff • Effaith yr M4 ar ansawdd aer • Pwysau ar fannau gwyrdd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd trefol • Cynnal seilwaith gwyrdd • Capasiti'r grid/cymhorthdal • Maint datblygu sydd wedi'i gynllunio/pwysau datblygu • Cael cydbwysedd anghywir • Cost/budd cynlluniau trafnidiaeth yn cael eu gyrru gan economeg nid yr amgylchedd • Man gwyrdd mewn datblygiad newydd, a rheolaeth • Rheoli'r grid

• Prosiectau ynni adnewyddadwy hybrid • Ynni adnewyddadwy – haul yn erbyn gwynt • Cerbydau trydan • Grid deallus • Gwresogi ardal • Ynni'r llanw • Peidio â phennu isafswm safonau ar gyfer datblygu e.e. ffyrdd, mannau gwyrdd • Ystyried mantais amgylcheddol cynlluniau trafnidiaeth ymhellach	

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol (bob un ohonynt yn ysgogiadau):

- Cynllunio wedi'i gysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd
- Dylai cynllunio fod yn hwylusydd
- Pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chanolbwyntio ar draws sectorau
- Gwydnwch amgylcheddol a chymdeithasol
- Gweld yr amgylchedd fel ased
- Edrych ar yr amgylchedd y tu hwnt i ddynodiadau yn unig
- Dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng yr amgylchedd a datblygu
- Angen am neges gadarn mewn perthynas â seilwaith
- Seilwaith ynni – cyflawni ar ba raddfa?

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Yr angen am gynllunio rhanbarthol i ddiogelu a gwella'r asedau amgylcheddol strategol
- Nodi safleoedd gwres (ynni) strategol ledled Cymru
- Rheoli gwastraff yn strategol
- Meddwl yn holistaidd am ddatblygu, nid dibynnu ar ymagwedd draddodiadol yn unig
- Creu parc rhanbarthol y Cymoedd, gan ddefnyddio asedau amgylcheddol presennol.

4.4 Crynodeb

4.4.1 Pwyntiau allweddol

Roedd y deg o bwyntiau allweddol a godwyd gan randdeiliaid yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru fel a ganlyn:

1. Er bod cynlluniau cadarnhaol ar waith i wella trafnidiaeth o amgylch y rhanbarth (e.e. Metro/Bargen Ddinesig), mae cysylltedd yn yr ystyr ffisegol a digidol yn parhau'n faes blaenoriaeth.
2. Mae cysylltiadau trawsffiniol gyda Lloegr yn bwysig i lwyddiant y rhanbarth, ond caiff hyn ei fygwth gan dagfeydd ar y ffyrdd (yn enwedig ar hyd yr M4) a'r seilwaith rheilffordd presennol.
3. Mae angen gwerthfawrogi a chynllunio'n ddoeth i adlewyrchu amrywiaeth economaidd yr ardal a mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.
4. Cymorth ar gyfer datgarboneiddio, yn enwedig o ran trafnidiaeth, fodd bynnag, mae angen cynllunio hyn yn ofalus oherwydd cyfyngiadau'r seilwaith grid presennol.
5. Sector addysg cryf, ond mae angen cadw sgiliau yn yr ardal er mwyn atal 'draen dawn'.
6. Gwarchod yr amgylchedd naturiol fel ased rhanbarthol, wrth hyrwyddo'i botensial i'r eithaf o ran twristiaeth ac adfywio.
7. Pryderon yn gysylltiedig â rheoli gwastraff a'r ymagwedd leol bresennol.
8. Pryder ynghylch manwerthu lleol a cholli'r Stryd Fawr draddodiadol a allai arwain at yr angen i arallgyfeirio defnyddiau canol tref.
9. Cysylltedd rhyngwladol: angen darparu mynediad a chyfleoedd gwell o amgylch Porthladdoedd a Maes Awyr Caerdydd.
10. Cefnogaeth gadarn ar gyfer entrepreneuriaeth a BBaChau.

4.4.2 Sut gallai neu sut dylai'r FfDC helpu'r rhanbarth

Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai neu y dylai'r FfDC helpu'r rhanbarth yn y deg ffordd ganlynol:

1. Adnabod pwysigrwydd cysylltiadau a chysylltedd trawsffiniol
